

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Chyflasynnau Mwg (Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Chyflasynnau Mwg (Addasiadau i Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.

Lynne Neagle AS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
27 Mai 2022

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

1. Diben yr offeryn hwn yw
  - (a) Diweddarau'r rhestr o Fwydydd Newydd (Atodiad 1 i Reoliad a ddargedwir (EU) 2017/2470) er mwyn rhoi'r penderfyniad a wnaed i awdurdodi'r chwe chais ar gyfer Bwydydd Newydd mewn grym yn gyfreithiol, ac er mwyn rhagnodi'r telerau yr awdurdodir defnyddio'r Bwydydd Newydd yng Nghymru odanynt.
  - (b) Diwygio'r rhestr o gynhyrchion crai cyflasynnau mwg ('cyflasynnau mwg') yn yr Atodiad i Reoliad a ddargedwir (EU) Rhif 1321/2013 er mwyn newid manylion deiliaid yr awdurdodiadau ar gyfer y pum cyflasyn mwg awdurdodedig.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2. Mae deddfwriaeth gyfatebol yn cael ei llunio yn Lloegr a'r Alban. Disgwylir i'r rheoliadau ddod i rym ledled Prydain Fawr ar yr un dyddiadau (18 Mehefin ar gyfer addasiadau i'r rhestr o ddeiliaid awdurdodiadau ar gyfer cyflasynnau mwg, a 30 Mehefin ar gyfer yr awdurdodiadau Bwydydd Newydd).

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig<sup>1</sup>.
4. O 1 Ionawr 2021 ymlaen, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.
5. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig, tra bod Gweinidogion Cymru (fel yr 'awdurdod priodol' mewn perthynas â Chymru) yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau.
6. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi bwydydd newydd wedi'i gynnwys yn Rheoliad a ddargedwir (EU) 2015/2283 ar fwydydd newydd. Mae awdurdodiadau yn barhaus. Bydd y bwydydd newydd a'r defnydd arnynt a awdurdodir gan yr offeryn hwn yn cael eu hychwanegu at yr Atodiad i Reoliad a ddargedwir (EU) 2017/2470.

---

<sup>1</sup> Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys hydoddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

7. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi cyflasyn mwg wedi'i gynnwys yn Rheoliad a ddargedwir (EC) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau y bwriedir eu defnyddio mewn neu ar fwydydd. Mae awdurdodiadau yn benodol i'r ymgeisydd, ac maent yn ddilys am ddeng mlynedd. Caiff deiliaid awdurdodiad wneud cais i adnewyddu'r awdurdodiad ar gyfer marchnata parhaus.
8. Mae'r awdurdodiadau (gan gynnwys enwau a chyfeiriadau deiliaid yr awdurdodiadau) wedi'u nodi yn y rhestr o gyflasynnau mwg awdurdodedig yn yr Atodiad i Reoliad a ddargedwir (EU) Rhif 1321/2013.
9. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

#### **4. Diben y deddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig**

10. Mae'r offeryn hwn yn berthnasol i Gymru. Mae deddfwriaeth gyfatebol yn cael ei llunio mewn perthynas â Lloegr a'r Alban.

##### Bwydydd newydd

11. Diben Rhan 2 yr offeryn hwn, a'r Atodlenni iddi, yw diweddau'r rhestr o fwydydd newydd awdurdodedig yn yr Atodiad i Reoliad a ddargedwir (EU) Rhif 2017/2470 yn dilyn penderfyniad gan Weinidogion Cymru i awdurdodi chwe chais ar gyfer bwydydd newydd.
12. Mae'r chwe chais yn cwmpasu bwydydd newydd i'w defnyddio fel cydrannau mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, yn ogystal â nifer o gategoriâu bwyd eraill. Mae tri o'r bwydydd newydd yn oligosacaridau llaeth dynol-unfath (HiMOs). Mae'r HiMOs a weithgynhyrchir yn unfath eu strwythur â'r un moleciwlau sy'n bresennol mewn llaeth o'r fron. Bwriedir eu hychwanegu at fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol er mwyn efelychu llaeth o'r fron yn agosach. Y tri Bwyd Newydd arall yw olewydd llawn asid docosahecsaëonig (DHA) sy'n deillio o algâu morol. Mae'n orfodol cynnwys DHA mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol yn ôl Rheoliad a ddargedwir (EU) Rhif 2016/127, sy'n atodi Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd o ran y gofynion gwybodaeth a chyfansoddiad penodol ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, ac o ran gwybodaeth mewn perthynas â bwydo plant ifanc a babanod. Mae a wnelo'r ddarpariaeth o ran cynnwys DHA â thwf a datblygiad gweithredol yr ymennydd mewn babanod. Roedd dau o'r ceisiadau am awdurdodi defnyddiau ychwanegol ar gyfer yr un cynhyrchion.
13. Pan oedd yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE), derbyniodd y Deyrnas Unedig (DU) asesiadau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i gefnogi awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Ers diwedd y cyfnod pontio, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi mabwysiadu'r un canllawiau technegol, trefniadau

llywodraethu a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud asesiadau risg annibynnol ar gyfer Prydain Fawr. Lle bo'r EFSA, cyn diwedd y cyfnod pontio, wedi gwerthuso cais ar gyfer cynnyrch y mae cais hefyd wedi'i gyflwyno ar ei gyfer i awdurdodau Prydain Fawr, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi penderfynu defnyddio asesiad risg EFSA, lle bo hynny'n briodol, wrth ffurfio eu barn annibynnol eu hunain.

14. Cafodd pob un o'r chwe chais am fwyd newydd farn asesiad risg gadarnhaol gan yr ASB. Adolygwyd asesiadau risg yr EFSA, a luniwyd mewn perthynas â'r ceisiadau am y chwe chynnyrch tra oedd y DU yn rhan o'r UE, gan Gyfarwyddiaeth Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB (SERD) i sicrhau eu priodoldeb ar gyfer Prydain Fawr. Ers hynny mae'r chwe chais am fwydydd newydd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yn yr Undeb Ewropeaidd/Gogledd Iwerddon. Mae'r telerau awdurdodi arfaethedig yng Nghymru yr un fath o ran sylwedd â'r rheiny ar gyfer awdurdodi'r cynhyrchion bwyd yn yr UE/Gogledd Iwerddon.

#### Cyflasynnau mwg

15. Diben Rhan 3 o'r offeryn hwn yw newid manylion deiliaid awdurdodiadau'r pum cyflasyn mwg awdurdodedig cyfredol.
16. Mae'r newidiadau i fanylion deiliaid yr awdurdodiadau fel hyn:
- SF-001 'Scansmoke PB 1110' o Azelis Denmark A/S i proFagus GmbH
  - SF-002 'Zesti Smoke Code 10' o Mastertaste i Kerry Group Plc.
  - SF-005 'SmokEz C-10' o Red Arrow Products Company LLC i Kerry Group Plc.
  - SF-006 'SmokEz Enviro-23' o Red Arrow Products Company LLC i Kerry Group Plc.
  - SF-007 'TradismokeTM A MAX' o Nactis i J. Rettenmaier & Söhne GmbH + CO KG

### **5. Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid**

17. Ar 17 Rhagfyr 2021 lansiodd yr ASB ymgynghoriad tair-gwlad mewn perthynas â'r chwe chais am fwydydd newydd. (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol am wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 11 Chwefror 2022. Lansiwyd ymgynghoriad cyfochrog hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn.
18. Cafwyd tri ymateb i ymgynghoriad yr ASB. Ni chafwyd unrhyw ymatebion i ymgynghoriad Safonau Bwyd yr Alban. Nid oedd unrhyw ymatebion yn gwrthwynebu awdurdodi. Cafwyd un ymateb gan y diwydiant – Cymdeithas Maetheg Arbenigol Prydain (BSNA); un gan unigolyn o Loegr; ac un gan Gymdeithas Safonau Masnach Dwyrain Lloegr (EETA). Nid oedd unrhyw ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi'u lleoli yng Nghymru. Rhoddodd yr ASB wybod i awdurdodau lleol Cymru

am yr ymgynghoriad cyn ei lansio, ac anfonodd ddolen at yr ymgynghoriad at awdurdodau lleol ar ôl ei lansio.

19. Mynegodd yr unigolyn preifat gefnogaeth, ar yr amod nad yw'r cynhyrchion yn achosi adweithiau alergenaidd. Ymatebodd y BSNA i gydnabod a chroesawu gwaith yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban wrth ymgynghori ar y cynhyrchion hyn. Cododd EETA rai ymholiadau wrth ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn ymwneud â chael dealltwriaeth well o'r telerau arfaethedig ar gyfer rhoi'r bwydydd newydd yng nghyswllt un o'r cynhyrchion HiMO, a diffyg dealltwriaeth o ran y lefel defnydd uchaf ac effaith hon ar fformiwla fabanod a bwydydd i fabanod. Dywedodd EETA hefyd fod eu haelodau'n anghyfforddus gyda bwydydd newydd yn cael eu defnyddio mewn fformiwla fabanod, a gofynnodd am fwy o dryloywder wrth labelu pan fo deunyddiau a addaswyd yn enetig wedi'u defnyddio fel cymhorthyn prosesu. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi ystyried diddordeb defnyddwyr mewn organebau a addaswyd yn enetig, ond maent yn fodlon nad oes angen i'r awdurdodiad bwyd newydd gynnwys amodau labelu o'r fath.
20. Fel rhan o'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad, nododd yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban ddiwygiadau yr oedd eu hangen ar farn asesu risg yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban ar gyfer pump o'r chwe chais am fwydydd newydd. Roedd y diwygiadau yn dechnegol a/neu weinyddol eu natur ac nid oeddent yn effeithio ar yr asesiad diogelwch.
21. Ar 31 Mawrth 2022, cyhoeddwyd y safbwyntiau diwygiedig ar fwydydd newydd ar wefannau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban am bythefnos ychwanegol ar gyfer sylwadau. Roedd y cyfnod ychwanegol hwn yn ychwanegol at yr ymgynghoriad wyth wythnos blaenorol a ddaeth i ben ar 11 Chwefror 2022. Cysylltwyd yn uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol ac ymatebwyr blaenorol i'r ymgynghoriad ar fwydydd newydd i roi gwybod am y safbwyntiau diwygiedig ac i wahodd sylwadau.
22. Ni ddaeth unrhyw sylwadau ychwanegol i law'r ASB. Daeth un sylw ychwanegol i law Safonau Bwyd yr Alban gan awdurdod lleol a oedd yn croesawu'r defnydd o asesiadau risg yr EFSA, lle bo'n briodol, i wneud penderfyniadau ar ddiogelwch cynhyrchion.
23. Ar 31 Mawrth 2022, cyhoeddodd yr ASB ddiweddariad ar gynhyrchion rheoleiddiedig ar ei gwefan hefyd, fel rhan o ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan hysbysu rhanddeiliaid am y newidiadau arfaethedig i fanylion deiliaid awdurdodiadau'r pum cyflasyn mwg, a chroesawu unrhyw sylwadau ychwanegol am bythefnos.
24. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law'r ASB ar y newidiadau arfaethedig i fanylion deiliaid yr awdurdodiadau yn ystod y pythefnos hwnnw.
25. Ystyriwyd pryderon rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Cynhaliwyd trafodaethau pedair-gwlad (yr ASB, yr ASB yng

Nghymru, yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban), yn unol â'r Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Cyffredin dros dro i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon posib.

26. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ymatebion canlynol yr ASB, wedi'u cyhoeddi ar [wefan yr ASB](#)

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

### Bwydydd newydd

27. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r bwydydd newydd hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, neu fusnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.

28. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.

### Cyflasynnau mwg

29. Ni fydd y newidiadau i ddeiliaid yr awdurdodiadau'n newid y gofynion rheoleiddio ar gyfer marchnata neu ddefnyddio'r cynhyrchion awdurdodedig. Mae'r ASB yn fodlon na fydd y newidiadau'n effeithio o gwbl ar ddiogelwch y cyflasynnau mwg na sut y cânt eu defnyddio ar farchnad Prydain Fawr.

30. Anogwyd rhanddeiliaid i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib yn ystod yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ni chodwyd unrhyw effeithiau.

## **7. Adolygiad ôl-weithredu**

31. Mae awdurdodiadau cyflasynnau mwg yn ddilys am ddeng mlynedd. Disgwylir ceisiadau adnewyddu ar gyfer yr holl gyflasynnau mwg awdurdodedig erbyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau adnewyddu, sef 30 Mehefin 2022.